**CYNGOR SIR PENFRO (HEOL YR ORSAF (B4313) a DOSBARTH III (C3027) ARBERTH I HEOL REYNALTON, ARBERTH) (TERFYN CYFLYMDER 40MPH) GORCHYMYN 2020**

---

Mae Cyngor Sir Penfro (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Cyngor") wrth arfer ei bwerau o dan Adran 84 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") ac o'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, yn unol â rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn: -

1. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder sy'n fwy na 40 milltir yr awr ar y darnau o ffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

2. Mae 'Cyngor Sir Penfro (Amryw ffyrdd, Arberth) (Terfyn Cyflymder 30mya a 40mya) Gorchymyn 2013' yn cael ei ddirymu.

3. Gellir enwi'r Gorchymyn hwn yn "Cyngor Sir Penfro (Ffordd yr Orsaf (B4313) a Dosbarth III (C3027) Arberth i Ffordd Reynalton, Arberth) (Terfyn Cyflymder 40 mya) Gorchymyn 2020" a bydd yn dod i rym ar yr 21st ain dydd o Hydref Dwy fil ac Ugain.

**RHODDWYD** o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro y 14eg diwrnod hwn o Hydref Dwy fil ac Ugain

At hyn gosodwyd **SÊL GYFFREDIN CYNGOR SIR PENFRO** ym mhresenoldeb: -

Llofnodwr Awdurdodedig

**Atodlen**

**<u>Terfyn Cyflymder 40 mya</u>**

| **Ffordd** | **Hyd** |
| --- | --- |
| Ffordd yr Orsaf (B4313) | O bwynt 256 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Ffordd Kiln Park, i'r de-ddwyrain hyd at bwynt 260 metr i'r dwyrain o'r un gyffordd. |
| C3027 Arberth i Ffordd Reynalton | O bwynt 45 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â'r A478 tua'r gorllewin am 634 metr hyd at bwynt 24 metr i'r de o'r fynedfa i Herons Brook. |

# Narberth - Proposed extension of 40 mph limit.

Map produced on: 08 April 2020

Scale (A3 Print) 1:1500




© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partion mewn unrhyw ffurf.